# Rhaglen archwilio iechyd deintyddol plant ledled Cymru

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol I Gymru | Dental Epidemiology Programme For Wales

Mae Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol y GIG yn mesur graddau (faint o bobl sy'n cael eu heffeithio), difrifoldeb (faint o ddannedd sy'n cael eu heffeithio), ac effaith clefydau deintyddol yng Nghymru.

Bob blwyddyn, mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar grŵp oedran gwahanol.

## Yn y flwyddyn ysgol hon (2024-25), plant ym mlwyddyn 1 fydd dan sylw.

### Pam rydyn ni'n edrych ar iechyd y geg ymysg plant?

**Mae iechyd deintyddol yn bwysig.** Gall pydredd dannedd gael effaith negyddol ar blant a'u teuluoedd yn gorfforol, yn gymdeithasol ac yn addysgol.

Mae archwiliadau deintyddol cenedlaethol wedi cael eu cynnal ers dros **20 mlynedd**.

Mae **54,235** o blant wedi cymryd rhan mewn 7 arolwg blwyddyn 1 yn yr ysgol. Yn yr arolwg diwethaf, cafodd tua 1 ymhob 3 o blant yng Nghymru eu harchwilio.

Mae iechyd y geg ymysg plant yn gwella'n araf deg, ond nid yw pob ardal yng Nghymru yn gwella ar yr un gyfradd.

### Mae hyn yn helpu'r GIG i ddeall -

- Iechyd y geg ymysg plant yng Nghymru
- Tueddiadau mewn iechyd y geg dros amser
- Gwahaniaethau rhwng ardaloedd lleol
- Effeithiolrwydd rhaglenni atal

***Bydd hyn yn llywio polisi Llywodraeth Cymru ar iechyd a gwasanaethau deintyddol ac yn helpu GIG Cymru i gynllunio a chynnig gwasanaethau deintyddol sy'n well yn y dyfodol.***

Caiff y canlyniadau eu rhannu â'r **Cynllun Gwên** er mwyn helpu'r plant hynny sydd ei angen fwyaf. https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/cynllun-gwen/

## Mae ysgol eich plentyn yn ein helpu gyda'r archwiliadau, a byddwn ni'n gofyn i chi am eich help cyn bo hir

### Does dim rhaid ichi wneud unrhyw beth eto

Er mwyn defnyddio adnoddau'r GIG mor effeithiol ag y gallwn ni, dydyn ni ddim bob amser yn gwahodd pob plentyn i gymryd rhan. Byddwn ni'n dewis sawl plentyn ar hap o bob ysgol.

**Os bydd eich plentyn yn cael ei ddewis,** byddwch chi'n cael llythyr cyn hir yn egluro'r arolygiad ac yn gofyn am eich caniatâd i archwilio'ch plentyn. Os ydych chi'n cydsynio, llenwch y ffurflen a'i dychwelyd i'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o rieni sy'n cael eu gofyn yn penderfynu cymryd rhan.

### Os byddwch chi'n cytuno i gymryd rhan

- ✓ Bydd tîm deintyddol cymwys yn edrych ar ddannedd eich plentyn
- ✓ Bydd pob archwiliad deintyddol yn cael ei gynnal yn yr ysgol, a dim ond ychydig o funudau y bydd hyn yn ei gymryd allan o'u diwrnod ysgol arferol
- ✓ Byddwn ni'n casglu'r wybodaeth leiaf bosibl oddi wrthoch chi a'ch plentyn, a chaiff hyn ei chadw'n gyfrinachol
- × Ni fyddwn ni'n cynnal unrhyw driniaeth ar eich plentyn

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru:**
https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/iechyd-cyhoeddus-deintyddol/gwybodaeth-iechyd-y-geg/

# All-Wales children's dental inspection programme

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol I Gymru
Dental Epidemiology Programme For Wales

The NHS Dental Epidemiology Programme measures the extent (how many people are affected), severity (how many teeth are affected), and impact of dental disease in Wales.

Each year, the programme focusses on a different age group.

## This school year (2024-25) we will be examining children in year 1

### Why do we look at children's oral health?

**Dental health is important.** Tooth decay can have a negative physical, social, and educational impact on children and their families.

National dental inspection have been running for more than **20 years**.

**54,235** children have taken part in **7** school year 1 surveys. In the last survey, around 1 in 3 children in Wales were seen.

Children's oral health is slowly improving but not all areas in Wales are improving at the same rate.

### The inspection helps the NHS to understand -

- Oral health of the children in Wales
- Trends in oral health over times
- Differences between local areas
- Effectiveness of prevention programmes

***This will inform Welsh Government's policy on dental health and services and help NHS Wales better plan and deliver dental services in the future.***

The results are shared with the **Designed to Smile** scheme to help the children that need it most.
www.designedtosmile.co.uk

## Your child's school is helping us with the inspections, and we will shortly be asking for your help

### You do not have to do anything yet

To use NHS resources as effectively as possible we do not always invite every child to take part. We will randomly select several children from each school.

**If your child is chosen**, you will soon receive a letter explaining the inspection and asking for permission to examine your child. If you give permission, please complete the form and return it to the school. Most parents who are asked decide to take part.

### If you agree to take part

- ✓ A qualified dental team will look at your child's teeth
- ✓ All examinations will take place at school and will only take a few minutes out of their normal school day
- ✓ We will collect the minimum amount of information from you and your child, and this will be kept confidential
- × We will not carry out any treatment on your child

**More information can be found on the Public Health Wales website:**
https://phw.nhs.wales/services-and-teams/dental-public-health/oral-health-intelligence/